**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DB/PO/0098/25

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

4 Mawrth 2025

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Chwefror ynglŷn ag ariannu gofal plant yng Nghymru.

Rydym yn benderfynol o gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg".

Yn ystod 2023-24 a 2024-25, rydym yn buddsoddi £46 miliwn i ehangu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg er mwyn helpu i sicrhau effeithiau cadarnhaol hirdymor ar fywydau'r plant a'r teuluoedd hynny ledled Cymru sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Rydym yn disgwyl y byddwn yn cefnogi mwy na 9,500 o blant dwy oed ledled Cymru i fanteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg yn ystod 2023-24 a 2024-25) ac rydym ar y trywydd iawn i gyflawni hynny. Dangosodd y Datganiad Ystadegol Cenedlaethol diweddaraf ar gyfer Dechrau'n Deg fod 6,885 o leoedd gofal plant ychwanegol ar gyfer plant 2 oed wedi cael eu cynnig yn 2023-24 fel rhan o Gam 2.

Rydym wedi gwneud penderfyniad bwriadol i ganolbwyntio adnoddau ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn y lle cyntaf. Mae hyn yn sicrhau bod cefnogaeth yn cyrraedd teuluoedd sydd ei angen fwyaf cyn gynted â phosibl. Rydym yn cydweithio'n agos â'r sector i feithrin capasiti yn raddol i sicrhau bod unrhyw gynnydd i'r ddarpariaeth yn gynaliadwy.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg a minnau wedi trafod buddsoddi mewn gofal plant fel rhan o drafodaethau'r Gyllideb. O ran ehangu gofal plant Dechrau'n Deg ymhellach (Cam 3), rwy'n falch o gadarnhau bod y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2025-26 a gyhoeddwyd ar 20 Chwefror yn cynnwys dros £25m o gyllid ychwanegol ar gyfer ehangu gofal plant o ansawdd uchel Dechrau'n Deg i fwy o blant ledled Cymru.

Mae'r awdurdodau lleol wedi nodi cynlluniau ynghylch sut y byddant yn parhau i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg yn eu hardaloedd. Bydd y cyllid ychwanegol hwn, a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Derfynol, yn sicrhau bod gofal plant ar gael i'r mwyafrif o blant dwy flwydd oed

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a nodwyd yn y cynlluniau hynny yn 2025-26. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn ein galluogi i ariannu'r broses o ehangu gofal plant Dechrau'n Deg ym mhob ardal awdurdod lleol, gan ddod â Chymru gam yn agosach at ddarpariaeth gofal plant i bob plentyn dwy flwydd oed.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi cynaliadwyedd y sector. Mae'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2025-26, hefyd yn darparu cynnydd o 28% i'r gyfradd fesul awr sy'n cael ei thalu ar hyn o bryd i ddarparwyr gofal plant sy'n darparu Cynnig Gofal Plant Cymru. Mae hyn yn golygu, o fis Ebrill eleni, y bydd y gyfradd yn cynyddu o £5 i £6.40 i gefnogi darparwyr sy'n wynebu pwysau ariannol. Mae hyn yn ychwanegol at ein cyhoeddiad diweddar ynghylch symud i adolygiadau blynyddol o'r gyfradd o 2025-26, a'n penderfyniad i wneud rhyddhad ardrethi o 100% ar gyfer pob safle gofal plant yn barhaol.

Rwy'n anfon copi o'm hymateb at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care